

**Y Pwyllgor Cymunedau,
Cydraddoldeb a Llywodraeth
Leol**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

3 Chwefror 2012

Annwyl Syr/Madam

Ymgynghoriad ar *Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol)*

Fel rhan o'i ystyriaethau Cyfnod 1, mae Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol ***Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol)***.

Beth yw Bil?

O dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gall y Cynulliad Cenedlaethol wneud deddfau mewn meysydd lle mae ganddo'r pwerau deddfwriaethol i wneud hynny.

Pan gaiff cynnig ar gyfer deddf newydd ei gyflwyno yn y Cynulliad Cenedlaethol, caiff ei alw'n 'Fil'.

Defnyddir proses pedwar cyfnod ar gyfer ystyried Bil. Yng Nghyfnod 1, caiff egwyddorion cyffredinol y Bil eu hystyried gan bwyllgor (sy'n cynnwys casglu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan y rheini sydd â diddordeb a chan randdeiliaid), a rhaid i'r Cynulliad gytuno ar yr egwyddorion hynny.

Pan gaiff Bil ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol ac ar ôl iddo gael Cydsyniad Brenhinol, mae'n dod yn 'Ddeddf Cynulliad'.

Beth mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni?

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'r Bil yn nodi:

“Diben y Bil yw rhoi dyletswyddau'r Cynulliad, a rhai'r Comisiwn, mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau dwyieithog, ar sail statudol gadarn.”

Ffon / Tel: 029 2089 8147
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: celg.committee@wales.gov.uk

O'r herwydd, dim ond â'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad yn unig y mae'r Bil yn ymwneud,

Beth yw rôl y pwyllgor?

Rôl y pwyllgor yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil ac adrodd arnynt. Wrth wneud hynny, mae'r pwyllgor wedi cytuno i weithio o fewn y fframwaith a ganlyn:

Ystyried:

- i) a oes angen Bil i ddarparu ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol a chan Gomisiwn y Cynulliad wrth arfer ei swyddogaethau;
- ii) a yw'r Bil yn cyflawni'r amcanion a nodwyd ynddo;
- iii) y darpariaethau allweddol sydd wedi'u nodi yn y Bil ac a ydynt yn briodol ar gyfer cyflawni'r dibenion;
- iv) rhwystrau posibl i weithredu'r darpariaethau allweddol ac a yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth iddynt;
- v) a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn codi o'r Bil.
- vi) y Cynllun Ieithoedd Swyddogol Drafft a gynhwysir yn Atodiad B o'r Memorandwm Esboniadol.

Sut y gallwch chi helpu – cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae rhagor o fanylion am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig i'w gweld ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=3011&Opt=0>

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w gynorthwyo yn ei waith o graffu ar y Bil. Yn arbennig, byddai'n croesawu eich atebion i'r cwestiynau a restrir yn **Atodiad 1**.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i:
Pwyllgor.CCLII@cymru.gov.uk

Neu, fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Leanne Hatcher, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, Y Swyddfa Ddeddfwriaeth,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn 9 Mawrth 2012. Efallai na fydd yn bosibl ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Mae rhagor o wybodaeth am y **broses ddeddfwriaethol** i'w chael yn:

Ffon / Tel: 029 2089 8147
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: celg.committee@wales.gov.uk

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance.htm>

Wrth baratoi eich tystiolaeth, dylech ystyried y pwyntiau a ganlyn:

- dylai eich ymateb fynd i'r afael â'r materion sydd gerbron y Pwyllgor.;
- bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel arfer yn cyhoeddi ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar ei wefan, ac efallai y bydd Aelodau'r Cynulliad yn eu gweld a'u trafod mewn cyfarfod pwyllgor hefyd. **Os nad ydych am i ni gyhoeddi eich ymateb neu'ch enw, mae'n bwysig eich bod yn nodi hyn yn glir wrth gyflwyno eich tystiolaeth;**
- nodwch a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn; a
- nodwch a fydddech yn barod i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Gareth Williams, Clerc y Pwyllgor, ar 029 2089 8008 neu â Leanne Hatcher, y Dirprwy Glerc, ar 029 2089 8147.

Yn gywir



Ann Jones AC
Cadeirydd y Pwyllgor

Ffon / Tel: 029 2089 8147
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: celg.committee@wales.gov.uk

Atodiad 1 Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiynau am y Bil

1. A oes angen [Bil](#) i ddarparu ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol a chan Gomisiwn y Cynulliad wrth arfer ei swyddogaethau? Os felly, pam? Os nad oes, pa ddewisiadau eraill ydych yn eu cynnig?
2. A ydych yn credu y bydd y Bil yn cyflawni diben y Bil fel y cyfeirir ato yng ngwestiwn 1 a pharagraffau 4.1 i 4.4 ar dudalen 6 o'r Memorandwm Esboniadol? Rhowch esboniad am eich ateb.
3. Mae Adran 1(2) o'r Bil yn disodli adran 35(1) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ac yn cyflwyno pedair darpariaeth newydd mewn cysylltiad â thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn y Cynulliad. Beth yw eich barn am y darpariaethau hyn?
4. Mae Adran 2(2) yn cyflwyno naw is-baragraff newydd i baragraff 8 o Atodlen 2 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (a gaiff eu rhestru fel is-baragraffau (3) i (11)). Maent yn cynnwys darpariaethau manwl sy'n diffinio dyletswyddau'r Comisiwn o ran defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn y Cynulliad, ac mae esboniad arnynt ym mharagraffau 12.1 i 12.12 ar dudalennau 22 i 24 o'r Memorandwm Esboniadol.

Beth yw eich barn am y darpariaethau hyn?

Wrth nodi eich barn, efallai y byddwch am ystyried y pwyntiau a ganlyn:

- (i) Mae *is-baragraff (4)* newydd yn nodi fod yn rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi Cynllun leithoedd Swyddogol yn manylu ar y camau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan *is-baragraff newydd (3)*.

A ydych yn credu ei bod yn briodol bod dyletswyddau'r Comisiwn yn cael eu darparu drwy Gynllun leithoedd Swyddogol, ac os felly, pam? Os nad ydych, pa ddewis arall ydych yn ei awgrymu?

- (ii) Mae *is-baragraff (5)* newydd yn ymdrin â rhai o'r materion y byddai'n rhaid i'r Cynllun fynd i'r afael â hwy, sef darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd a chyhoeddi dogfennau'n ddwyieithog.

Beth yw eich barn am y ddarpariaeth hon?

Ffon / Tel: 029 2089 8147
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: celg.committee@wales.gov.uk

- (iii) mae *is-baragraff (6)* newydd yn darparu nad yw'n ofynnol o *reidrwydd* i bob gair a siaredir neu a ysgrifennir yn un o'r ieithoedd swyddogol gael ei gyfieithu neu'i gyfieithu ar y pryd.

Beth yw eich barn am y ddarpariaeth hon?

- (iv) Mae *is-baragraff (7)* newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun esbonio sut y dylid ymdrin â chwynion.

Beth yw eich barn am y ddarpariaeth hon?

- (v) mae *is-baragraff (9)* newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun gael ei adolygu o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

Beth yw eich barn ynghylch pa mor aml yr adolygir y Cynllun?

- (vi) Mae *is-baragraff (10)* newydd yn amlinellu'r broses ar gyfer mabwysiadu Cynllun.

A yw'r broses yn eglur? Rhowch esboniad am eich ateb.

A oes angen cyfeiriad penodol at unrhyw ymgynghori? Rhowch esboniad am eich ateb.

- (vii) Mae *is-baragraff (10)(b)* newydd yn cyfeirio'n benodol at Gomisiwn y Cynulliad yn ystyried sylwadau a wnaed ynghylch y Cynllun gan (i) y cyhoedd a (ii) y Cynulliad.

A ddylai unrhyw berson neu sefydliad arall yn benodol gael eu cynnwys yn y rhestr? Os felly, pwy?

5. Yn gyffredinol, a ydych o'r farn bod cydbwysedd cywir rhwng y gofynion penodol sydd wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil a'r darpariaethau sydd i'w cynnwys yn y Cynllun? Rhowch esboniad am eich ateb.
6. Beth yw'r rhwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil (os o gwbl) ac a yw'r Bil yn eu hystyried?
7. Beth yw eich barn, os o gwbl, am oblygiadau ariannol y Bil? Wrth ateb y cwestiwn hwn mae'n bosibl y byddwch am ystyried Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n amcangyfrif costau a manteision gweithredu'r Bil.
8. Ar 3 Awst 2011 cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad Fil Drafft ar gyfer ymgynghori arno¹. Newidwyd y Bil gan y Comisiwn i ystyried yr

¹ Ar gael yn: http://www.cynulliadcymru.org/abthome/about_us-commission_assembly_administration/pre_legislative_consultation_bilingual_services.htm

ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.² Mae paragraff 6.18 ar dudalen 11 o'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio'r newidiadau a wnaed. Pa sylwadau, os o gwbl, sydd gennych am y newidiadau hynny?

9. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am adrannau penodol o'r Bil?

Cwestiynau am y Cynllun Drafft

10. Beth yw eich barn am y Cynllun Ieithoedd Swyddogol Drafft, sy'n gynwysiedig fel Atodiad B i'r [Memorandwm Esboniadol](#)?
11. Hefyd cyhoeddodd y Comisiwn y Cynllun drafft ar gyfer ymgynghori arno, gyda'r Bil drafft, ym mis Awst 2011³. Newidwyd y Cynllun gan y Comisiwn i ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.⁴ Mae paragraff 6.19 ar dudalen 11 o'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio'r newidiadau a wnaed. Pa sylwadau, os o gwbl, sydd gennych am y newidiadau hynny.

² Ar gael yn: http://www.cynulliadcymrus.org/abthome/about_us-commission_assembly_administration/pre_legislative_consultation_bilingual_services/pre_legislative_consultation_bilingual_services_consultation_responses.htm

³ Gweler troednodyn 1

⁴ Gweler troednodyn 2